Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr yng Ngymru a'r Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr







© Hawlfraint y Goron Ionawr 2020
WG39774 ISBN digidol 978 1 83933 933 2

## Mynegai


4 Rhagair y Gweinidog

5 Y Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr
- Cefndir
- Dull y Deyrnas Unedig
- Ffactorau trawsbynciol a'r Prif Themâu
- Ymatebion o Gymru

10 Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru
- Cefndir
- Methodoleg
- Ymgysylltu
- Canfyddiadau

15 Ymarfer Cwmpasu Llywodraeth Cymru a Strategaeth y DU ar gyfer Cyn-filwyr

20 Beth rydym eisoes yn ei wneud i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth

23 Cynllun cyflawni

26 Llywodraethu

27 Monitro cynnydd

28 Atodiad 1

29 Atodiad 2

43 Canlyniadau'r Ymarfer Cwmpasu - Graffiau

## Rhagair Gweinidogol



Mae ein Cyn-filwyr yn briodol yn dal lle arbennig yn serchiadau ein cenedl. Ochr yn ochr â'r rhai sy'n dal i wasanaethu yn ein Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, mae cyn-filwyr wedi gwneud, ac yn parhau i wneud, gyfraniad hynod gadarnhaol a gwerthfawr i'n cymunedau a'n gwlad.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o fod wedi chwarae rhan fawr yn natblygiad Strategaeth y DU ar gyfer ein Cyn-filwyr - Mae ei gweithredu yn gam sylweddol ymlaen wrth ddarparu cefnogaeth i bobl sydd wedi rhoi cymaint ac yn parhau i roi cymaint.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i chwarae rhan lawn wrth gyflawni'r agenda hon.

Mae'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr yn cynrychioli cyfraniad Cymru i Strategaeth y DU ar gyfer ein Cyn-filwyr. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn yn rhoi adborth uniongyrchol i Lywodraethau Cymru a'r DU gan y gymuned gyn-filwyr yng Nghymru ar sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd; bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth ac yn bwysig sut y gellir gwneud gwelliannau.

Trwy gydweithio a gweithio gyda'n gilydd, gwyddom y gallwn greu a chyflawni newid ar gyfer cymuned ein Lluoedd Arfog a'n cyn-filwyr, eu teuluoedd a'u rhwydwaith cymorth.

I symud y gwaith hwn yn ei flaen bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ac yn bwysicaf oll cyn-filwyr, i fynd i'r afael â themâu allweddol a oedd wedi ei amlygu drwy'r ymarfer cwmpasu - gan gynnwys trefniadau iechyd, tai a phontio (rhwng gwasanaeth a bywyd sifil).

Mae'n fraint cael bod yn y sefyllfa hon ac yr wyf yn gwbl ymroddedig i sicrhau y bydd y strategaeth hon yn sicrhau gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i gyn-filwyr ledled Cymru.



**Hannah Blythyn**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**

## Y Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr

### Cefndir

Ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddwyd Strategaeth y DU ar gyfer ein Cyn-filwyr. Roedd y strategaeth yn nodi'r egwyddorion a'r nodau angenrheidiol er mwyn parhau i fodloni anghenion cyn-filwyr hŷn yn ogystal â'r gymuned cyn-filwyr ehangach dros y deng mlynedd nesaf, ac yn nodi'r amodau cywir i gymdeithas eu grymuso a'u cefnogi am y can mlynedd nesaf.

Dyma weledigaeth y Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr:
*'Bydd y rheini sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, a'u teuluoedd, yn pontio'n rhwydd yn ôl i fywyd sifil ac yn cyfrannu'n llawn at gymdeithas sy'n deall ac yn gwerthfawrogi'r hyn maen nhw wedi'i wneud, a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig'.*

Mae'r strategaeth hefyd yn '*nodi'r amcan i wasanaethau cyhoeddus i gyn-filwyr ledled y DU weithio tuag ato'.*

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r weledigaeth honno ac ynghyd â'n partneriaid drwy Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, sefydliadau trydydd sector a Fforymau Rhanbarthol a Lleol y Cyfamod, rydym wedi ymrwymo i roi cymorth i gyn-filwyr a'u teuluoedd ym mhob agwedd ar eu bywyd. Rydym yn credu y bydd y strategaeth hon yn gwella ac yn ategu'r gwaith hwnnw ac yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud hyd yma.

### Dull y Deyrnas Unedig

Mae Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU wedi cydweithio ar bob cam o ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr.

O'r cychwyn cyntaf, cytunodd pob Llywodraeth ar natur DU gyfan y strategaeth a'i defnydd ar draws pob maes. Cytunwyd y bydd *'Pob gwlad yn pennu ei dull ymgynghori ei hun ar gyfer ategu defnydd y strategaeth hon. Bydd hyn yn ceisio safbwyntiau ar gwestiynau penodol i adeiladu ar y gwaith ymchwil a'r ymgysylltu sydd wedi'i wneud i gynhyrchu'r strategaeth hon, yn erbyn cefndir yr hyn sydd wedi'i gyflawni'n barod'.*

Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru yw cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr. Mae canfyddiadau'r gwaith yn rhoi adborth uniongyrchol i Lywodraethau Cymru a'r DU gan y gymuned cyn-filwyr yng Nghymru ar sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd, ar y bylchau yn narpariaeth gwasanaethau, ac ar sut gellir gwella.

Wrth i ni fwrw ymlaen â'r Ymarfer Cwmpasu a rhoi ein Cynllun Cyflawni ar waith, byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i ymgysylltu â Llywodraethau'r Alban a'r DU, gan rannu'r arferion gorau ac adlewyrchu anghenion cyn-filwyr yng Nghymru.

## Ffactorau trawsbynciol a'r prif themâu

**FFACTORAU TRAWSBYNCIOL**

**1. Cydweithio rhwng sefydliadau**
• Gwell cydweithio rhwng sefydliadau yn cynnig cymorth cydlynol i gyn-filwyr.

**2. Cyd-drefnu gwasanaethau cyn-filwyr**
• Cyd-drefnu'r ddarpariaeth i gyn-filwyr yn cyflawni nodau ac egwyddorion cyson dros amser a ledled y DU, gan wneud yn siŵr bod cyn-filwyr, eu teuluoedd a theuluoedd yr ymadawedig yn cael eu trin yn deg o'u cymharu â'r boblogaeth leol.

**3. Data ar gymuned y cyn-filwyr**
• Casglu, defnyddio a dadansoddi data ar raddfa fwy ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol i adeiladu sylfaen dystiolaeth i nodi a mynd i'r afael ag anghenion cyn-filwyr yn effeithiol.

**4. Canfyddiadau a dealltwriaeth y cyhoedd**
• Poblogaeth y DU yn gwerthfawrogi cyn-filwyr ac yn deall eu profiadau a'u diwylliant amrywiol.

**5. Cydnabod Cyn-filwyr**
• Cyn-filwyr yn teimlo bod eu gwasanaeth a'u profiad yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gymdeithas.

**PRIF THEMÂU**

**1. Cymuned a pherthnasoedd**
• Cyn-filwyr yn gallu meithrin perthnasoedd iach ac integreiddio i'w cymuned.

**2. Cyflogaeth, addysg a sgiliau**
• Cyn-filwyr yn cael swyddi priodol ac yn gallu parhau i ddatblygu eu gyrfa drwy gydol eu bywyd gwaith.

**3. Cyllid a dyled**
• Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog â digon o addysg, ymwybyddiaeth a sgiliau ariannol i fod yn hunangynhaliol ac yn gydnerth yn ariannol.

**4. Iechyd a lles**
• Yr holl gyn-filwyr yn mwynhau lles, iechyd corfforol ac iechyd meddwl cadarnhaol, gan eu galluogi i gyfrannu at agweddau ehangach ar gymdeithas.

**5. Ymgartrefu mewn cymdeithas sifil**
• Cyn-filwyr yn cael lle diogel i fyw naill ai drwy brynu, rhentu neu dai cymdeithasol.

**6. Cyn-filwyr a’r gyfraith**
• Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog â'r cydnerthedd a'r ymwybyddiaeth i fod yn ddinasyddion sy'n ufudd i'r gyfraith.

Aeth Ymarfer Cwmpasu Llywodraeth Cymru ati i adlewyrchu'r prif themâu yn y Strategaeth ar gyfer Cyn-Filwyr drwy'r broses ymgynghori ar-lein / wyneb yn wyneb a gynhaliwyd. Cafodd hyn ei wneud drwy ofyn i gyn-filwyr a'u teuluoedd am eu profiadau o'r gwasanaethau canlynol:

- Pontio
- Cyflogaeth
- Budd-daliadau a lles
- Gofal iechyd
- Tai
- Cyfiawnder Troseddol
- Addysg

## Ymatebion o Gymru

Ochr yn ochr ag Ymarfer Cwmpasu Llywodraeth Cymru, cafodd cyn-filwyr a sefydliadau yng Nghymru eu gwahodd i gyflwyno safbwyntiau i ymgynghoriad y DU ar y Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr, a oedd yn rhedeg rhwng 15 Tachwedd 2018 a 21 Chwefror 2019.



Cafwyd 2,177 ymateb i ymgynghoriad y DU. O blith y rhain, roedd 94 **(4%)** gan ymatebwyr yng Nghymru.

Roedd y cyn-filwyr yng Nghymru a oedd wedi cyflwyno sylwadau i ymgynghoriad Llywodraeth y DU yn nodi amrywiaeth o faterion perthnasol, gan gynnwys y Ffactorau Trawsbynciol a'r Prif Themâu canlynol[1]:

**Cymuned a pherthnasoedd**

- Unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn brif thema sydd angen sylw;
- Gwerth clybiau brecwast, canolfannau cyn-filwyr, boreau coffi, sesiynau galw heibio;
- Manteision defnyddio gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, nad ydynt yn benodol i gyn-filwyr, i gynnwys y gymuned cyn-filwyr.

**Cyflogaeth, Addysg a Sgiliau**

- Mae angen profiad gwaith mewn gweithleoedd sifil ar Gymuned y Lluoedd Arfog;
- Cyflogwyr sifil i gydnabod setiau sgiliau Cymuned y Lluoedd Arfog yn well;
- Gweithio gyda'r rheini sy'n gadael Gwasanaeth a chyflogwyr i nodi bylchau sgiliau lleol, a theilwra'r hyfforddiant yn ôl y rhain;
- Sgiliau paratoi CV a chyfweld yn bwysig;
- Mae angen addasu'r cymwysterau sy'n cael eu hennill wrth wasanaethu ar gyfer gweithleoedd sifil.

**Cyllid a Dyled**

- Angen mynd i'r afael â diffyg sgiliau cyllidebu a chynllunio ariannol mewn Gwasanaeth;
- Cael budd-daliadau'n anodd o ganlyniad i bensiwn Gwasanaeth – teimlo eu bod dan anfantais o ganlyniad i'w Gwasanaeth;
- Gamblo wedi'i nodi fel problem gynyddol;
- Angen gwella'r hyfforddiant ariannol mewn Gwasanaeth; Cysylltiadau ag undebau credyd / cynllun cynilion;
- Dechrau hyfforddi'n gynharach ar gyfer bywyd sifil – pwysigrwydd pontio 'drwy gydol bywyd'.

**Iechyd a lles**

- Nodi a data mewn cysylltiad â chyn-filwyr angen gwella – goblygiadau o ran triniaeth flaenoriaethol, cyfeirio at wasanaethau;
- Angen cymorth meddygol mwy penodol ar gyfer y Lluoedd Arfog / cyn-filwyr;
- Dylid edrych ar driniaeth wedi'i theilwra ar gyfer camddefnyddio sylweddau;
- Angen cyflwyno'r cynllun achredu meddygon teulu yn ehangach;
- Angen gwell data ar unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion Lluoedd Arfog ymysg staff y GIG – hyfforddiant, adnoddau;
- 'Fflagio' statws cyn-filwyr ar systemau – dim digon o ddata systemig yn cael eu casglu ar y Lluoedd Arfog;
- Darpariaeth prosthetigau – gwahaniaethau ar draws y DU;
- Dylai cymorth iechyd meddwl gynnwys teuluoedd, sy'n gallu dioddef yn enbyd.

[1] Roedd yr adborth ar strategaeth y DU ar gyfer cyn-filwyr wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Dadansoddi a gynhyrchwyd gan ddadansoddwyr yr RPA ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn (28 Mehefin 2019).

**Ymgartrefu**

- Blaenoriaeth uwch mewn tai cymdeithasol – angen edrych ar y flaenoriaeth ar gyfer y Lluoedd Arfog / beth sy'n briodol yn y canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes;
- Hyrwyddo mentrau sy'n bodoli eisoes i raddau uwch;
- Angen rhagor o gyd-drefnu lleol;
- Hyrwyddo Veterans' Gateway fel y siop un stop;
- Gwell cyfeirio at grwpiau a chanolfannau lleol.

**Data**

- GDPR a rhannu data yn cael eu gweld fel y prif rwystrau – cyn-filwyr yn gorfod dweud eu hanes yn aml, sy'n gallu bod yn ysgytiol;
- Dull nodi yn broblem;
- Bylchau yn y wybodaeth o hyd, ee nifer y cyn-filwyr digartref. Mae hyn yn effeithio ar y canfyddiadau o gyn-filwyr a sut mae pobl yn eu gweld;
- Cofnodion y GIG – diffyg dull nodi cyson;
- System cyfiawnder troseddol – angen adeiladu ar y cynnydd mewn carchardai – adnabod a chymorth wrth ryddhau.

## Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Llywodraeth Cymru

### Cefndir

Ym mis Ebrill 2018, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr adeg honno amlinellu cynlluniau ar gyfer Ymarfer Cwmpasu y byddai Llywodraeth Cymru'n ei gyflawni, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau i gyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru. Cytunwyd ar amcanion yr ymarfer yng Ngrŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog ar 26 Medi 2018[2].

Cafodd yr Ymarfer Cwmpasu ei gynllunio i ategu'r gwaith o weithredu **Strategaeth gyntaf erioed y DU ar gyfer Cyn-filwyr**. Byddai canlyniadau'r Ymarfer Cwmpasu'n dylanwadu ar benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned hon, ac yn cyfrannu at y weledigaeth a rennir sydd yn Strategaeth y DU ar gyfer Cyn-filwyr.

### Methodoleg

Cynhyrchwyd arolwg ar-lein ac ar bapur gan swyddogion polisi'r Lluoedd Arfog yn Llywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriad â darparwyr a chyd-weithwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau meintiol ac ansoddol i asesu demograffeg, profiadau o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ers gadael y Lluoedd Arfog, a'u hargymhellion posibl o ran sut gellid gwella'r gwasanaethau hyn i gyn-filwyr a'u teuluoedd.  Roedd adran benodol yn yr arolwg ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gymuned y Lluoedd Arfog.  Roedd yr arolwg yn ceisio gwybodaeth am feysydd darparu sefydliadau, lle maen nhw'n credu bod bylchau'n bodoli yn y gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu i gyn-filwyr, a'u hargymhellion o ran sut i wella gwasanaethau.

Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar draws sector y Lluoedd Arfog yng Nghymru.  Cyhoeddwyd galwad ddwyieithog am ymatebion drwy'r canlynol:

- Elusennau milwrol a trydydd sector
- Cymdeithasau Catrodol
- Fforymau awdurdodau lleol a rhanbarthol ar gyfer y Lluoedd Arfog
- Sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Cyrff statudol / cyhoeddus
- Clybiau brecwast
- Aelodau o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog
- Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Lluoedd Arfog a Chadetiaid
- Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog.

Roedd copïau papur o'r arolwg ar gael gan dîm polisi'r Lluoedd Arfog yn Llywodraeth Cymru, a chawsant eu darparu'n bersonol i grwpiau cymorth i gyn-filwyr.

[2] https://llyw.cymru/grwp-arbenigol-ar-anghenion-cymuned-y-lluoedd-arfog-yng-nghymru

## Ymgysylltu â'r Ymarfer Cwmpasu

Rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i ategu'r ymarfer cwmpasu:

- Cafodd **arolwg** ar-lein / ar bapur 1007 o ymatebion yr oedd modd eu defnyddio[3] gan gyn-filwyr, eu teuluoedd a sefydliadau cymorth;

- Aeth swyddogion i dros 40 o **grwpiau / cyfarfodydd cymorth i gyn-filwyr** gyda darparwyr gwasanaethau ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog. O blith y rhain, roedd 22 yn grwpiau cymorth penodol wedi'u rhedeg gan gyn-filwyr i gyn-filwyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar draws holl ranbarthau Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru (lle mae fforymau rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn cyfarfod yn rheolaidd);


- Fe wnaeth swyddogion ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 250 o gyn-filwyr ac aelodau teuluol drwy grwpiau cymorth.

[3] Nid oedd nifer o ymatebion yn cynnwys unrhyw ddata yr oedd modd eu cofnodi heblaw am 'optio i mewn' i'r arolwg, felly ni chawsant eu cynnwys yn yr asesiad terfynol.

**Y Canfyddiadau**

## Oedran a rhyw

**1%** 18-25
**78%** Gwryw
**9%** 26-35
**18%** 36-45
**22%** Menyw
**27%** 46-55





### Hyd gwasanaeth

**11%** rhwng 0-4 flwyddyn
**29%** rhwng 5-10 flwyddyn
**17%** rhwng 10-15 flwyddyn
**41%** dros 15 mlynedd

### Pan adawsant

**1.1%** o fewn y mis diwethaf
**13%** yn y 4 blynedd diwethaf
**18%** yn y 5-10 blynedd diwethaf
**67%** dros 10 mlynedd yn ôl




*13% o'r cyfranogwyr yn dewis rhai gweinyddol, disgyblu, gwell peidio â dweud neu wedi ei bensiynau

Adborth

Ynghyd â'r adborth meintiol a gafwyd drwy'r arolwg cwmpasu, cafodd ymatebwyr y cyfle i ddarparu adborth manwl.

Yn sgil yr adborth hwnnw nodwyd amrywiaeth o fylchau mewn gwasanaethau y bydd angen gweithredu arnynt, a hynny ar sail profiadau'r ymatebwyr. Y prif themâu oedd:

**Profiad pontio / adsefydlu gwael**

- Diffyg cymorth wrth adael gwasanaethau.
- Cyrsiau ddim ar gael yng Nghymru / amherthnasol.
- Diffyg cymorth penodol mewn meysydd fel tai, iechyd, cyflogaeth.
- Cymwysterau milwrol ddim yn trosi i fywyd sifil.
- Rheoli disgwyliadau – angen gwybodaeth gliriach am beth i'w ddisgwyl ar ôl gadael y Lluoedd Arfog.

**Diffyg cymorth yn cael ei ddarparu mewn bywyd sifil / trafferth dod o hyd i wybodaeth**

- Darpariaeth ddiffygiol / amrywiol o ran dyrannu tai, gan gynnwys llety symud ymlaen.
- Trafferth cael gafael ar gymorth y GIG ar gyfer materion iechyd meddwl.
- Ardaloedd gwledig – dim ond gwasanaethau sylfaenol sydd ar gael, ac mae'n anodd cael gafael arnynt.
- Asiantaethau sifil lleol ddim yn darparu ar gyfer y Lluoedd Arfog / ddim wedi'u cyd-drefnu.
- Diffyg cymorth pwrpasol ar gael.
- Dim cymorth profedigaeth i deuluoedd / anodd cael gafael arno.
- Dim digon o 'sesiynau galw heibio' / canolfannau.

**Cyfamod ddim yn cael ei weithredu / ei gynnal / ddim yn gwneud beth y dylai**

- Triniaeth iechyd flaenoriaethol ddim yn cael ei gweithredu / diffyg ymwybyddiaeth o'r polisi. Diffyg gwybodaeth ymysg staff rheng flaen.
- Diffyg ymwybyddiaeth o'r Cyfamod / pa bolisïau mae'n eu darparu. Siarad gwag – dim camau gweithredu.
- Cyn-filwyr yn gorfod brwydro i gael gafael ar wasanaethau a ddylai fod yn rhan o'r Cyfamod.
- Tai – dryswch ac amrywiaeth o ran polisïau; diffyg darpariaeth.

**Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau**

- Cyflogwyr ddim yn cydnabod sgiliau milwrol. Ddim yn ymwybodol o'r sgiliau sydd ar gael ymysg y gymuned cyn-filwyr.
- Diffyg dealltwriaeth o faterion Gwasanaeth, gan gynnwys iawndal.
- Darparwyr iechyd a thai ddim yn ymwybodol o amgylchiadau / materion a wynebir.

**Colli hunaniaeth / trafferth addasu / ddim yn teimlo bod pobl yn eu gwerthfawrogi**

- Teimlo’n ynysig, yn unig ac yn gweld eisiau'r brawdgarwch.
- Cyn-filwyr yn ymddieithrio o gymdeithas.

**Dan anfantais o ganlyniad i'w Gwasanaeth**

- Iawndal yn cyfrif yn erbyn y system budd-daliadau.
- Teimlo ar eu colled yn ariannol ar ôl gwasanaethu.

**Profiad negyddol o elusennau**

- Ddim yn dilyn camau drwodd.
- Elusennau'n dod i ben o ganlyniad i ddiffyg arian – effaith ar fuddiolwyr.
- Dyblygu a chystadleuaeth.
- Diffyg cyd-drefnu.

**Diffyg cymorth i deuluoedd**

- Trafferth cael gafael ar ofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.
- Diffyg dealltwriaeth o fywyd gwasanaeth a symudedd / effaith ar eu priod.
- Tai a chysylltiad lleol.
- Trafferth cael mynediad i ysgolion ar ôl gwasanaethu.

**Cyn-filwyr ddim yn cael eu nodi**

- Ee Iechyd, Tai – wedyn polisïau a darpariaeth eraill ddim yn dilyn ee triniaeth flaenoriaethol.
- Ddim yn cael gwybod am y cymorth ychwanegol sydd ar gael oherwydd nad yw eu statws fel cyn-filwyr yn hysbys.
- Nodi anghyson o ran plant y Lluoedd Arfog – cymorth yn yr ysgol. Derbyniadau.
- System cyfiawnder troseddol – nodi anghyson mewn dalfeydd / heddluoedd.

Rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2019, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru 6 digwyddiad ymgynghori rhanbarthol ychwanegol gyda chynrychiolwyr o sector y Lluoedd Arfog i ddechrau nodi **camau gweithredu posibl** i'w datblygu. Cafodd yr holl bartneriaid wahoddiad drwy fforymau rhanbarthol y Lluoedd Arfog.

Mae canfyddiadau'r digwyddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

Bydd y camau gweithredu posibl yn cael eu darparu i'r Grŵp Gweithredu perthnasol i'w hystyried, yn ogystal â Chylch Gorchwyl pob grŵp.

## Ymarfer Cwmpasu Llywodraeth Cymru a Strategaeth y DU ar gyfer Cyn-filwyr

Mae'r tabl canlynol yn mapio ac yn amlygu'r cysondebau rhwng detholiad o ganfyddiadau ymarfer cwmpasu Cymru a Ffactorau Trawsbynciol a Phrif Themâu Strategaeth y DU ar gyfer Cyn-filwyr.

| Strategaeth y DU ar gyfer Cyn-filwyr – Ffactor Trawsbynciol / Prif Thema | Canfyddiad(au) Perthnasol yr Ymarfer Cwmpasu |
|---|---|
| **Ffactor trawsbynciol:**<br><br>**Cydweithio rhwng sefydliadau – Gwell cydweithio rhwng sefydliadau yn cynnig cymorth cydlynol i gyn-filwyr.** | • Angen mwy o gymorth a chydweithio rhwng sefydliadau.<br>• Mwy o gymorth a chyllid yn arwain at gyd-drefnu gwasanaethau'n well, ac at fwy o gydweithio a chyfathrebu ar draws y sector.<br>• Diffyg cyfathrebu ar draws y sector yn rhoi cyn-filwyr dan anfantais.<br>• Gwell ffrydiau cyfathrebu rhwng sefydliadau a fyddai'n gwella cydweithio a'r cymorth yn gyffredinol.<br>• Diffyg cysondeb rhwng meysydd ac o fewn sefydliadau weithiau – diffyg cyfathrebu rhwng adrannau.<br>• Angen i bob sefydliad i gyn-filwyr ddod ynghyd a rhannu gwybodaeth.<br>• Cystadleuaeth am gyllid yn arwain at ddyblygu ac effaith ar gyn-filwyr sy'n cael eu dal yn y canol. |
| **Ffactor trawsbynciol:**<br><br>**Cyd-drefnu gwasanaethau i gyn-filwyr – cyd-drefnu'r ddarpariaeth i gyn-filwyr yn cyflawni nodau ac egwyddorion cyson dros amser a ledled y DU, gan wneud yn siŵr bod cyn-filwyr, eu teuluoedd a theuluoedd yr ymadawedig yn cael eu trin yn deg o'u cymharu â'r boblogaeth leol.** | • Deall a dilyn y 'Cyfamod' yn cael ei nodi fel problem i rai;<br>• Triniaeth iechyd flaenoriaethol ddim yn cael ei gweithredu, neu mae diffyg ymwybyddiaeth o'r polisi, sy'n golygu bod yn rhaid i gyn-filwyr frwydro am eu gwasanaeth. Darpariaeth anghyson.<br>• Gwasanaeth milwrol yn arwain at fod dan anfantais, naill ai'n ariannol neu mewn ffyrdd eraill. |

| | |
|---|---|
| | • Angen mwy o gyd-drefnu rhwng darparwyr. |
| **Ffactor trawsbynciol:**<br><br>**Data ar gymuned y cyn-filwyr – casglu, defnyddio a dadansoddi data ar raddfa fwy ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol i adeiladu sylfaen dystiolaeth i nodi a mynd i'r afael ag anghenion cyn-filwyr yn effeithiol.** | • Ddim wedi'u nodi fel cyn-filwr yn brofiad i rai yng Nghymru, a 'neb wedi gofyn byth' a oeddent wedi gwasanaethu;<br>• Goblygiadau o ran gofal iechyd a chael gafael ar driniaeth briodol; cael gafael ar gymorth tai;<br>• Angen data mwy cyson ar niferoedd, lleoliad cyn-filwyr / teuluoedd er mwyn cynllunio gwasanaethau;<br>• Diffyg nodi cyson o ran plant y Lluoedd Arfog yn cael ei ystyried yn fwlch – diffyg data;<br>• Angen ei gwneud hi'n haws nodi cyn-filwyr. |
| **Ffactor trawsbynciol:**<br><br>**Canfyddiadau a dealltwriaeth y cyhoedd – poblogaeth y DU yn gwerthfawrogi cyn-filwyr ac yn deall eu profiadau a'u diwylliant amrywiol.** | • Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth ymysg gwasanaethau sifil rheng flaen o brofiadau'r Lluoedd Arfog;<br>• Goblygiadau o ran cyflogaeth – Diffyg cydnabyddiaeth gan gyflogwyr sifil o'r cymwysterau a enillwyd wrth wasanaethu / diffyg dealltwriaeth.<br>• O ran gwasanaethau fel iechyd, roedd cyn-filwyr yn tynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth o effaith bywyd yn y Lluoedd Arfog, gan arwain at oedi ac aros am driniaeth a oedd yn boenus weithiau.<br>• Yn cael sylw hefyd oedd diffyg dealltwriaeth o iawndal y Lluoedd Arfog ymysg staff rheng flaen a phroblemau o ran disgwyliadau cyflogaeth ar ôl gwasanaethu.<br>• Diffyg cydnabyddiaeth o'r sgiliau a'r profiad a enillwyd. |
| **Ffactor trawsbynciol:** | |

| | |
|---|---|
| **Cydnabod cyn-filwyr – Cyn-filwyr yn teimlo bod eu gwasanaeth a'u profiad yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gymdeithas.** | • Cyn-filwyr yn teimlo fel baich ar gymdeithas;<br>• Teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n iawn a gweld eisiau'r brawdgarwch;<br>• Gweld eisiau bod yn rhan o rywbeth arbennig a'r brawdgarwch, a neb yn deall neu'n poeni am brofiadau blaenorol;<br>• Teimlo eu bod yn 'cael eu gadael ar eu pen eu hunain' ac ar gyrion cymdeithas. |
| **Prif thema:**<br><br>**Y gymuned a pherthnasoedd – Cyn-filwyr yn gallu meithrin perthnasoedd iach ac integreiddio i'w cymuned.** | • Profiad pontio gwael sy'n arwain at beidio ag integreiddio'n dda i gymdeithas;<br>• Angen i weithwyr cymorth / mentoriaid helpu i bontio ac ail-integreiddio;<br>• Gwell addysg o ran beth i'w ddisgwyl mewn bywyd sifil;<br>• Sesiynau galw heibio / canolfannau i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysiad;<br>• Pwysig cynnal cysylltiadau â'r gymuned Filwrol. |
| **Prif thema:**<br><br>**Cyflogaeth, addysg a sgiliau – Cyn-filwyr yn cael swyddi priodol ac yn gallu parhau i ddatblygu eu gyrfa drwy gydol eu bywyd gwaith.** | • Cafodd cyflogaeth sgôr gwael neu wael iawn gan 38.6% o'r cyn-filwyr a ymatebodd;<br>• Angen cymorth wedi'i dargedu wrth chwilio am waith;<br>• Angen i gyflogwyr fod yn fwy ymwybodol o'r hyn gall cyn-filwyr ei gyfrannu at y gweithle o ran sgiliau a rhinweddau arwain. Ddim yn gwerthfawrogi/gwybod gwerth cyn-filwyr.<br>• Angen cydnabod cymwysterau milwrol mewn bywyd sifil. |
| **Prif thema:**<br><br>**Cyllid a dyled – Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog â digon o addysg,** | • Cafodd cyllid (budd-daliadau a dyled) sgôr gwael neu wael iawn gan 49.7% o'r cyn-filwyr a ymatebodd; |

| | |
|---|---|
| **ymwybyddiaeth a sgiliau ariannol i fod yn hunangynhaliol ac yn gydnerth yn ariannol.** | • Problemau gyda budd-daliadau fel Credyd Cynhwysol a'r Taliad Annibyniaeth Personol;<br>• Angen i fwy o gynghorwyr dyled ac ariannol fod ar gael yn ystod ac ar ôl Gwasanaeth;<br>• Angen diystyru Pensiwn Anabledd Rhyfel wrth asesu budd-daliadau ac angen gwneud mwy o fudd-daliadau, cymorthdaliadau a gostyngiadau ar gael;<br>• Gwasanaethau i ddeall natur bywyd gwasanaeth / effaith bosibl ar gyllid. |
| **Prif thema:**<br><br>**Iechyd a lles – Yr holl gyn-filwyr yn mwynhau lles, iechyd corfforol ac iechyd meddwl cadarnhaol, gan eu galluogi i gyfrannu at agweddau ehangach ar gymdeithas.** | • Gwell mynediad i ofal iechyd;<br>• Roedd 34.2% o'r cyn-filwyr a ymatebodd wedi rhoi sgôr gwael neu wael iawn i ofal iechyd;<br>• Gwell cymorth iechyd meddwl, cymorth prosthetigau a thriniaeth flaenoriaethol;<br>• Trafferth cael gafael ar wasanaethau iechyd sifil o'i gymharu â sut oedd hi yn y Lluoedd Arfog;<br>• Angen gwell ymwybyddiaeth a chyhoeddusrwydd i wasanaethau;<br>• Angen gwell ymwybyddiaeth ymysg staff iechyd;<br>• Angen gwell data a defnydd o gofnodion meddygol milwrol. |
| **Prif thema:**<br><br>**Ymgartrefu mewn cymdeithas sifil – Cyn-filwyr yn cael lle diogel i fyw naill ai drwy brynu, rhentu neu dai cymdeithasol.** | • Cafodd tai sgôr gwael neu wael iawn gan 31.9% o'r cyn-filwyr a ymatebodd;<br>• Blaenoriaeth o ran tai i rai grwpiau – blaenoriaeth isel / dim blaenoriaeth i gyn-filwyr ar hyn o bryd;<br>• Gwell cyngor a gwybodaeth;<br>• Rhagor o eglurder o ran y term Cyn-filwr mewn cysylltiad â thai, ac i beth mae gan gyn-filwyr hawl / i beth nad oes ganddynt hawl;<br>• Cysondeb o ran ystyr statws cyn-filwr wrth ddyrannu tai; |

| | |
|---|---|
| | • Darpariaeth wael i gyn-filwyr yn y sector tai; Cyn-filwyr dan anfantais o'u cymharu â grwpiau eraill a allai fod yn agored i niwed. |
| **Prif thema:**<br><br>• **Cyn-filwyr a’r gyfraith – Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog â'r cydnerthedd a'r ymwybyddiaeth i fod yn ddinasyddion sy'n ufudd i'r gyfraith.** | • Dywedodd 20.8% (178) o'r cyn-filwyr a ymatebodd eu bod wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol;<br>• Stigma ar ôl rhyddhau a gwahaniaethu yn y farchnad swyddi;<br>• Darpariaeth/cymorth iechyd meddwl gwael – angen gwell gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr mewn carchardai;<br>• Angen mwy o gymorth ar ôl rhyddhau;<br>• Gwaith cadarnhaol yng Nghymru gyda sefydliadau'n mynd i garchardai / cynnig gwasanaethau. |

## Beth rydym eisoes yn ei wneud i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth

Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi gwneud gwaith sylweddol yn y gorffennol i fynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n cael eu codi yn yr Ymarfer Cwmpasu a'r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

| Thema | Beth rydym yn ei wneud |
|---|---|
| **Budd-daliadau a Chyllid** | • Yn 2017 fe wnaethom weithredu ar ymgyrch Insult to Injury y Lleng Brydeinig Frenhinol a chyflwyno diystyriaeth lawn o bob iawndal i'r Lluoedd Arfog wrth asesu anghenion gofal cymdeithasol.<br>• Ariannodd Llywodraeth Cymru ymgyrch hyrwyddo ar gyfer buddion meddu ar Gerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r cerdyn yn rhoi gostyngiadau manwerthu a hamdden, a gall cyn-filwyr ac aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ei ddefnyddio i nofio am ddim yng Nghymru. |
| **Data** | • Mae gennym fetrigau wedi'u sefydlu ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a phrosthetigau i gyn-filwyr.<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i'n galluogi i gasglu data ar blant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion. |
| **Addysg** | • Fe wnaethom gyflwyno Cronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg i Gymru er mwyn cefnogi lles plant y Lluoedd Arfog. Cafodd tua £250k ei ddyfarnu yn ystod 2018/19 i ysgolion unigol, grwpiau o ysgolion ac awdurdodau lleol, a oedd yn darparu cyllid llawn neu rannol i 27 o gynigion llwyddiannus.<br>• Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant, gan gynnwys plant y Lluoedd Arfog sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br>• Ym mlwyddyn academaidd 2017/18 fe wnaethom ddarparu tua £233k drwy ein Cynllun Addysg Bellach ac Addysg Uwch i helpu'r rheini sy'n gadael Gwasanaeth a chyn-filwyr i ennill cymwysterau. |

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles** | • Rydym wedi parhau i ddarparu tua £700k y flwyddyn i GIG Cymru i Gyn-filwyr, sy'n cynnwys ymchwil i Anhwylder Straen Wedi Trawma ag ymwrthedd i driniaeth.<br><br>• Rydym wedi darparu £20m o gyllid ychwanegol i Fyrddau Iechyd i wella eu holl wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rheini i gyn-filwyr.<br><br>• Byddwn yn darparu £500k ychwanegol y flwyddyn i'w fuddsoddi mewn dulliau rhanbarthol a chenedlaethol penodol i fynd i'r afael â hunanladdiad ac i atal hunan-niweidio.<br><br>• Wedi darparu gwasanaethau a chymorth i 308 o gyn-filwyr yn ystod 2016/17 er mwyn iddynt gael triniaeth ar ôl cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau.<br><br>• Rydym wedi ymrwymo i ariannu nofio am ddim i bersonél y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr tan 2021, er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u lles.<br><br>• Darparodd Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru £120k rhwng 2016 a 2018 i gefnogi Llwybr Carlam y Lluoedd Arfog, sy'n galluogi personél y Lluoedd Arfog i ddychwelyd i ddyletswydd yn gynharach.<br><br>• Rydym wedi cyflwyno a lansio poster electronig wedi'i ddylunio o'r newydd i'w argraffu a'i ddangos mewn meddygfeydd, i atgoffa meddygon teulu o flaenoriaeth gofal iechyd Cyfamod y Cyn-filwyr.<br><br>• Rydym wedi gweithio gyda holl Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog mewn Byrddau Iechyd Lleol i gefnogi a hyrwyddo gofal iechyd i gyn-filwyr.<br><br>• Rydym wedi darparu tua £930k o gyllid ers 2013 i gefnogi cyn-filwyr y mae angen prosthetigau arnynt. |
| **Tai** | • Wedi cyhoeddi **Llwybr Tai** sy'n darparu gwybodaeth ac yn cyfeirio at gymorth a'r dewisiadau sydd ar gael i gyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. |

| | |
|---|---|
| | • Wedi cefnogi **Tŷ Ryan**, cynllun hunanadeiladu wedi'i dargedu at gyn-filwyr er mwyn iddynt ennill sgiliau a chymwysterau yn ystod y gwaith adeiladu. Mae hyn wedi darparu cartrefi i gyn-filwyr a'u teuluoedd sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith adeiladu.<br><br>• Gan weithio gyda **Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog yng Ngwent**, mae awdurdodau lleol yn yr ardal wedi diwygio eu polisi tai i ystyried cyfnod gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog ar gyfer cynnwys pobl ar restrau aros tai. |
| **Cymorth wrth ddychwelyd i fywyd sifil** | • Rydym wedi ariannu Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ledled Cymru am **ddwy flynedd gyda phecyn cyllid gwerth £500k**.<br><br>• Gan weithio gyda phartneriaid allweddol yn ystod 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Lwybr Cyflogaeth a Phecyn Cymorth i Gyflogwyr**.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei llawn gefnogaeth i'r **prosiect SToMP** sy'n darparu Llwybr i Gyn-filwyr mewn carchardai ledled Cymru, gan eu helpu i gael gafael ar gymorth ac i adsefydlu cyn ac ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. |

## Cynllun cyflawni – Cymryd camau i lenwi'r bylchau

Ar 18 Medi 2019, cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, a oedd wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Yn y cyfarfod hwn, cafodd cynllun cyflawni drafft ei gymeradwyo. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y **Prif Gamau Gweithredu** Allweddol y bydd yn cael eu harchwilio a'u cymryd i lenwi'r bylchau mewn gwasanaethau a nodwyd yn ystod yr Ymarfer Cwmpasu. Fe wnaeth y canlynol ddylanwadu ar y camau hyn:

- Argymhellion a gyflwynwyd gan gyn-filwyr, eu teuluoedd a sefydliadau yn yr Ymarfer Cwmpasu (drwy'r arolwg ac yn bersonol);
- Cyfarfodydd rhanbarthol a gynhaliwyd â rhanddeiliaid allweddol rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2019 (gweler Atodiad 2 am restr lawn o'r cyfarfodydd a'r materion a godwyd).

Yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu hystyried gan Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog, gan Fwrdd y Rhaglen a gan y Grwpiau Gweithredu.

**Dyma'r Prif Gamau Gweithredu:**

| | |
|---|---|
| **1. Tai** | **1.1** Ystyried diweddaru canllawiau tai Llywodraeth Cymru i sicrhau rhagor o gysondeb ac ymwybyddiaeth o'r Lluoedd Arfog ymysg staff tai. |
| | **1.2** Ystyried diwygio'r angen blaenoriaethol i gynnwys cyn-filwyr ag amodau sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth. |
| | **1.3** Ystyried diwygio canllawiau tai i gydnabod gŵyr a gwragedd sydd wedi ysgaru / gwahanu. |
| | **1.4** Annog a hyrwyddo'r arfer o gasglu data ar gyn-filwyr sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol, gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu nodi ar y pwynt mynediad. Mynnu bod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn nodi. |
| **2. Iechyd** | **2.1** Hyrwyddo ac annog yr arfer o nodi cyn-filwyr yn y system gofal iechyd.<br><br>**2.2** Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o faterion cyn-filwyr ymysg staff iechyd. |
| | **2.3** Gwneud yn siŵr bod triniaeth iechyd meddwl i gyn-filwyr yng Nghymru'n bodloni'r angen presennol. |

| | |
|---|---|
| | **2.4** Gwneud yn siŵr bod darparwyr cymorth iechyd meddwl, fel GIG Cymru i Gyn-filwyr, yn ymgysylltu â charcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau. |
| | **2.5** Gwneud yn siŵr bod cyn-filwyr sy'n camddefnyddio sylweddau yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddelio â phrofiad Gwasanaeth. |
| | **2.6** Gwneud yn siŵr bod prosthetyddion y Ganolfan Cyfarpar ac Aelodau Artiffisial yn cael hyfforddiant priodol i ymateb i ddatblygiadau technolegol newydd. Sefydlu fforwm i ystyried darparu gwasanaethau prosthetigau i gyn-filwyr. |
| **3. Cyflogaeth** | **3.1** Hyrwyddo'r sgiliau a'r manteision mae'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yn gallu eu cyfrannu at y gweithle. |
| | **3.2** Lansio a hyrwyddo Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd gyda'r Ffederasiwn Teuluoedd yng Nghymru. Partneriaid a'r sector i hyrwyddo'r fenter hon i fuddiolwyr. |
| | **3.3** Helpu i wneud yn siŵr bod cyn-filwyr yn gallu cysylltu'r sgiliau a enillwyd yn ystod Gwasanaeth â'r sgiliau sydd eu hangen mewn gweithleoedd sifil. |
| **4. Pontio** | **4.1** Llywodraeth Cymru i weithio gyda sector y Lluoedd Arfog yng Nghymru i gefnogi a gwella gwasanaethau'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd/Gwasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog yng Nghymru. |
| | **4.2** Gwella'r cyfeiriadau a'r wybodaeth sydd ar gael i'r rheini sy'n gadael Gwasanaeth ac i gyn-filwyr er mwyn eu helpu i ymgartrefu yn y gymuned. |
| **5. Addysg** | **5.1** Codi proffil anghenion plant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion yng Nghymru, gan ddarparu cymorth ble mae angen a data gwell. |
| **6. Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth** | **6.1** Codi proffil a gwella ffrydiau gwybodaeth ymysg awdurdodau lleol a staff rheng flaen o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog. |

| | |
|---|---|
| **7. Llywodraethu** | **7.1** Gwneud yn siŵr bod materion a meysydd sy'n cynnwys arferion da a nodir ar lefel leol yn cael eu huwchgyfeirio i'w trafod yng Ngrŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog. |
| | **7.2** Llywodraeth Cymru i archwilio grŵp cyflawni trawslywodraethol ar gyfer y Lluoedd Arfog gyda swyddogion o wahanol feysydd polisi (gan ystyried bwrdd y rhaglen fel cyfrwng posibl). |
| **8. Cyfiawnder Troseddol** | **8.1** Adeiladu ar y cymorth sydd mewn lle yn barod ar gyfer nodi cyn-filwyr sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. |
| | **8.2** Codi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth sydd ar gael am gymorth ar lefel leol i'r rheini sy'n gadael y ddalfa. |
| **9. Cyllid** | **9.1** Darparu gwybodaeth glir a hyfforddiant ar reolaeth ariannol ac atebolrwydd cyn pontio. |
| | **9.2** Cefnogi'r gwaith mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid yn ei wneud yn barod i ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog a hyrwyddo'r gwaith hwn i rwydweithiau / grwpiau cyn-filwyr. |

## Llywodraethu – Mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ac adrodd yn ôl arnynt



Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu trefniadau llywodraethu newydd i fwrw ymlaen â chanfyddiadau'r Ymarfer Cwmpasu. Dyma fydd y prif elfennau:

- Bwrdd Rhaglen newydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r ymarfer cwmpasu Prif Gamau Gweithredu.
- Saith grŵp gweithredu thematig newydd yn cynnwys arbenigwyr a sefydliadau cyflawni allweddol i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Prif Gamau Gweithredu.

Gan weithio ochr yn ochr â Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, bydd y grwpiau newydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau'r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr, a drwy hynny'n gwneud yn siŵr bod canfyddiadau'r ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar Gymru (yr Ymarfer Cwmpasu) ac ymgynghoriad y DU (y Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr) yn cael eu datblygu yng Nghymru er budd ein cymdeithas cyn-filwyr.

## Monitro cynnydd

Bydd diweddariad ar y cyflawniad yn erbyn yr Ymarfer Cwmpasu'n cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gyfamod y Lluoedd Arfog yn y dyfodol, a'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y diweddaraf ar y cynnydd yn cael ei rannu drwy'r canlynol hefyd:

- Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog;
- Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog a fforymau rhanbarthol/lleol y Cyfamod;
- Fforymau Swyddfa Materion Cyn-filwyr / y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- Llywodraeth y DU a chydweithwyr datganoledig drwy ffrydiau gwaith y Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr;
- Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Lluoedd Arfog a Chadetiaid.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu at waith Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru a Strategaeth y DU ar gyfer Cyn-filwyr.

**Atodiad 1 – Gwaith ymgysylltu ar draws sector y Lluoedd Arfog rhwng mis Medi 2018 a mis Chwefror 2019.**

| Dyddiad | Gwesteiwr / Cyfarfod | Dyddiad | Gwesteiwr / Cyfarfod |
|---|---|---|---|
| 4/9/18 | Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy | 02/11/18 | Gofal a Thrwsio – Shotton |
| 5/9/18 | Woody's Lodge (Gogledd Cymru) | 02/11/18 | Tom Harrison House |
| 6/9/18 | Valleys Veterans | 6/11/18 | Fforwm y Lluoedd Arfog |
| 19/9/18 | Cyfarfod elusennau Cymru gyfan | 8/11/18 | Prifysgol Abertawe |
| 20/9/18 | Valleys Veterans | 13/11/18 | Help for Heroes |
| 26/9/18 | Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog | 14/11/18 | Rhwydwaith y Lluoedd Arfog CLILC |
| 27/9/18 | Grŵp cymorth i gyn-filwyr | 15/11/18 | Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro |
| 2/10/18 | Grŵp Newid Cam | 20/11/18 | Grŵp Newid Cam |
| 2/10/18 | Woody's Lodge (Gogledd Cymru) | 20/11/18 | Woody's Lodge (De Cymru) |
| 3/10/18 | Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 4/12/18 | Grŵp Newid Cam |
| 3/10/18 | Grŵp Llywio SToMP | 4/12/18 | Newid Cam / Hafal – Aberystwyth |
| 8/10/18 | Grŵp Cyflawni Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin – Gogledd Cymru | 6/12/18 | Valleys Veterans |
| 15/10/18 | Grŵp Newid Cam | 19/12/18 | Grŵp Newid Cam |
| 17/10/18 | Cynhadledd Cyfamod y Lluoedd Arfog | 21/12/18 | Grŵp cymorth i gyn-filwyr |
| 22/10/18 | Cyfarfod Therapyddion GIG Cymru i Gyn-filwyr | 8/1/18 | Cymdeithas Cyn-filwyr Llanelli |
| 23/10/18 | Grŵp Newid Cam | 14/1/18 | Uned Endeavour, Carchar Parc |
| 24/10/18 | VC Gallery | 7/2/19 | Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| 24/10/18 | Fforwm y Lluoedd Arfog | 12/2/19 | Cyfarfod y Cyfamod |
| 25/10/18 | Woody's Lodge (De Cymru) | 13/2/19 | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| 30/10/18 | Help for Heroes – Gogledd Cymru | 20/2/19 | LINKS – Grŵp y Llynges, y Fyddin a'r Awyrlu, Caerfyrddin |
| 31/10/18 | Project 360 | 20/2/19 | Fforwm Byrddau Iechyd Lleol |
| 31/10/18 | Grŵp Newid Cam | | |

Cafodd data ychwanegol eu casglu yng nghyfarfodydd ffurfiol Cyfamod y Lluoedd Arfog ac mewn Fforymau Rhanbarthol rhwng mis Mawrth a mis Awst 2018.

## Atodiad 2

Cyfarfodydd cyflawni cwmpasu – mis Gorffennaf 2019
Argymhellion i'w hystyried a gyflwynwyd gan y rheini a oedd yn bresennol.

| Cyfarfod | Thema | Argymhellion / awgrymiadau |
|---|---|---|
| **Merthyr Tudful** | Pontio | **Pecyn pontio Cymreig a roddir i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn dod i Gymru.** Defnyddio'r ddogfen *Croeso i Gymru*. Ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Transition at 160 i wneud yn siŵr bod copïau papur ar gael i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn pontio yng Nghymru.<br><br>**Mwy o gyrsiau pontio / cyrsiau'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd / ffeiriau swyddi yng Nghymru**<br>Diffyg cyrsiau yng Nghymru – y Weinyddiaeth Amddiffyn angen edrych ar sut gellir cynnal rhagor o gyrsiau pontio yng Nghymru gan ddefnyddio sefydliadau Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn ac ati. Hefyd, pa gyllid sydd ar gael i helpu'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog i deithio i gyrsiau os nad ydynt ar gael yng Nghymru?<br><br>Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn edrych ar hyfforddiant fel Paratowch a Symud Ymlaen (GRAMO) gan Trivallis, sy'n darparu llythrennedd ariannol. |
| | Diffyg cymorth / trafferth dod o hyd i wybodaeth<br><br>Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau | **Arbenigwyr / rolau rhanbarthol mewn awdurdodau lleol** ee Gwasanaeth cyngor i gyn-filwyr yng Nghwm Taf. Helpu cyn-filwyr a staff rheng flaen gyda'u hymholiadau. Angen mwy o'r rolau hyn.<br><br>Digwyddiad **rhanbarthol / cenedlaethol** penodol yng Nghymru i **ymarferwyr** yn sector y Lluoedd Arfog. Hyrwyddwyr ac ati wedyn yn gallu dysgu'n union beth mae pob |

| | | |
|---|---|---|
| | | elusen yn ei wneud mewn manylder. Rhannu arferion da.<br><br>**Datblygu rhagor o ganolfannau / grwpiau cymorth.** Gwirfoddolwyr yn gallu eu harwain. Cyfeirio / cymorth ar lefel isel. Defnyddio canolfannau cynghorau.<br><br>Gwasanaethau alcohol – cynllun peilot y Lleng Brydeinig Frenhinol ym Mryste (gweithiwr cymorth alcohol i gyn-filwyr). Gwella'r cysylltiadau rhwng GIG Cymru i Gyn-filwyr a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. **Rhaid gofyn y cwestiwn i nodi cyn-filwyr yn gyson.**<br><br>Tai – Does gan bob ardal ddim cofrestri tai ag un pwynt mynediad – rhaid i gyn-filwyr wedyn ymgysylltu â'r awdurdod lleol a phob cymdeithas dai.<br><br>**Newid yr angen blaenoriaethol** – ei ehangu i gyn-filwyr sydd wedi anafu a therfyn amser ar ôl Gwasanaeth, ee Blaenoriaeth am 3 mlynedd ar ôl gadael a mwy os cafwyd yr anaf o ganlyniad i'w Gwasanaeth.<br><br>**Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog – rhaid i'r cyllid barhau.** Bydd gwaith da yn cael ei golli. |
| | Cyfamod ddim yn cael ei weithredu / ei gynnal / ddim yn gwneud beth y dylai | **Rôl benodol yn y Llywodraeth / swydd Weinidogol.** Ar lefel y DU, Help for Heroes ac eraill yn galw am swydd o'r fath. Adran Materion Cyn-filwyr.<br><br>Archwilio gwaith yr Ombwdsmon a dal y gwaith o gyflawni'r Cyfamod i gyfrif. |
| | Diffyg cymorth i deuluoedd | Prosiectau fel Barnardo's / Newid Cam a Gwrando wedi dod i ben pan ddaeth y cyllid i ben. **Gwella ymwybyddiaeth o** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **wasanaethau i deuluoedd sy'n bodoli eisoes**, ee Help for Heroes, Tros Gynnal Plant. Ond dim ond ardal gyfyngedig mae Tros Gynnal Plant yn darparu ar ei chyfer = loteri cod post.<br><br>Diffyg darpariaeth i blant. |
| | Dan anfantais o ganlyniad i'w Gwasanaeth | **Sicrhau diystyriaeth lawn ar gyfer budd-dal tai, gofal cymdeithasol**<br>Angen cysondeb yn y ffordd mae awdurdodau lleol yn codi ac yn trin iawndal. |
| | Cyn-filwyr ddim yn cael eu nodi | **Angen gofyn cwestiynau ym mhob gwasanaeth** ee Tai. Rhaid cyhoeddi data ee Nifer y bobl sy'n cysgu allan.<br><br>**Y Weinyddiaeth Amddiffyn angen gwella'r ffordd mae'n rhannu data â darparwyr allweddol.** Optio i mewn er mwyn gallu rhannu manylion â darparwyr a chysylltu. Defnyddio Gwasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog.<br><br>System cyfiawnder troseddol – **dosbarthu taflenni a chardiau Veterans' Gateway i bob heddlu yng Nghymru ar gyfer eu dalfeydd.** |
| **Caerfyrddin** | Data / adborth lleol | Byddai'n fuddiol cael dadansoddiad o'r **awgrymiadau / adborth lleol** o'r ymarfer cwmpasu ar gyfer yr ardal hon. Darparu awgrymiadau ynghylch y materion lleol a godir mewn grwpiau cymorth ac ati yn ardal Hywel Dda. |
| | Diffyg cymorth i deuluoedd | Pe bai GIG Cymru i Gyn-filwyr yn darparu therapi teulu, ni fyddai hynny ar gyfer problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â brwydr. Byddai angen **rhagor o adnoddau** a chreu gwasanaeth dwy haen. |

| | | |
|---|---|---|
| | Diffyg cymorth / trafferth dod o hyd i wybodaeth | **Rhagor o ddarpariaeth mewn timau argyfwng** – yn syml does dim digon o gapasiti mewn gwasanaethau (cyn-filwyr ai peidio).<br><br>**Gwell dewisiadau trafnidiaeth er mwyn cael gafael ar wasanaethau.** |
| | Profiad pontio / adsefydlu gwael<br><br>Cyflogaeth | Canolfan adsefydlu agosaf yn Tidworth – rhy bell.<br>**Gallai'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd gynnal gweithdai yng Nghymru.**<br><br>**Dylai gŵyr a gwragedd allu defnyddio credydau dysgu uwch.**<br><br>**Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a busnesau Cymru i gynnig rhagor o leoliadau gwaith / profiad i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog – ehangu i ragor o rwydweithiau / grwpiau busnes – neges gyson.** Defnyddio cysylltiadau presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn / 160 â busnesau.<br><br>**Yn ystod yr archwiliad meddygol olaf wrth adael y Lluoedd Arfog, dylid cofrestru / gwneud apwyntiadau â'r meddyg teulu lleol.** |
| | Cyfamod ddim yn cael ei weithredu / ei gynnal / ddim yn gwneud beth y dylai<br><br>Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau<br><br>Diffyg cymorth mewn bywyd sifil | Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog – **dylent gael nodau cyson** wedi'u gosod gyda Llywodraeth Cymru – pawb yn gwneud pethau gwahanol ar hyn o bryd.<br><br>**Rhaid i gyllid Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog barhau** (nid yn ddiderfyn o reidrwydd) neu bydd gwaith da yn cael ei golli. Rhaid gwreiddio polisïau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Tai – Dylai deddfwriaeth Cymru gyfan gynnig rhagor o **gymorth a chysondeb** o ran dyraniadau / blaenoriaeth i gyn-filwyr.<br><br>Iechyd – triniaeth flaenoriaethol – bydd hi'n anodd cofnodi gan fod hynny'n dibynnu ar y llythyr atgyfeirio. **Oes modd i gontract y meddyg teulu adlewyrchu / cynnwys triniaeth flaenoriaethol ar lefel y DU?** (ddim yn dibynnu ar y bwrdd iechyd yn unig gan fod meddygon teulu'n annibynnol).<br><br>**Edrych ar sut gellir cofnodi achosion o driniaeth flaenoriaethol.** |
| | Prosiectau / cyllid y Cyfamod | **Angen rhagor o adborth lleol ar gynigion ledled y DU. Gwell proses wirio ag ardaloedd lleol ynghylch cynigion ar raddfa fawr.** |
| **Port Talbot** | Cyflogaeth | Rhagor o **waith ymchwilio ac ymgysylltu â chyflogwyr** i nodi'r bylchau sgiliau. Cyfathrebu'r rhain i'r Weinyddiaeth Amddiffyn / yn ystod pontio i ddylanwadu ar y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd ac ati.<br><br>**Hyrwyddo lleoliadau gwaith** / treialon gwaith i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog (a'u priod). Sicrhau cefnogaeth cyflogwyr yng Nghymru i gynnig lleoliadau gwaith.<br><br>**Rhaglen interniaeth yn y gwasanaeth sifil** – caniatáu i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog gael swyddi yn y gwasanaeth sifil.<br><br>Dylai arferion caffael, ee **contractau'r sector cyhoeddus, adlewyrchu Cyfamod y Lluoedd Arfog** – annog cyflogwyr i recriwtio o'r Lluoedd Arfog / manteisio ar sgiliau.<br><br>Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau / Llywodraeth Cymru ac ati yn sefydlu **tasglu** |

| | | |
|---|---|---|
| | | pan fydd cyflogwr mawr yn dileu swyddi pobl. Pam ddim gwneud hyn pan fydd pobl yn gadael y Lluoedd Arfog, sy'n digwydd yn gyson? |
| | Profiad pontio / adsefydlu gwael | Efallai na fydd cyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol wedi bod drwy proses bontio / wedi cymryd rhan mewn cyrsiau / wedi ennill Credydau Dysgu Uwch. **Gwneud yn siŵr bod y rheini sy'n gadael y carchar yn gallu cael gafael ar raglenni pontio** ee drwy Wasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog. Atgyfeirio o'r carchar at Wasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog wrth ryddhau.<br><br>Dim ond un heddlu sy'n 'gofyn y cwestiwn' ar sail adroddiad SToMP / IOM Cymru 'Barriers to disclosure'. Dylai pob un ofyn a chael llenyddiaeth Veterans' Gateway.<br><br>Cynnal **digwyddiadau pontio rhanbarthol** ee Stadiwm Dinas Caerdydd, Stadiwm Liberty. Cyfraniad y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd / y Weinyddiaeth Amddiffyn. |
| | Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau | Gwneud yn siŵr bod cynadleddau / digwyddiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hyrwyddo i **ymarferwyr** / y rheini 'ar lawr gwlad'.<br><br>**Rhaid gwella'r hyfforddiant a roddir i staff rheng flaen mewn awdurdodau lleol ac ati** – darpariaeth yn rhy araf ac anghyson. Pecyn hyfforddi CLlLC. |
| | Diffyg cymorth mewn bywyd sifil / trafferth dod o hyd i wybodaeth | Mae angen i fwy o **wybodaeth leol** fod ar gael drwy Veterans' Gateway ee Grwpiau cymorth, canolfannau. **Rhaid diweddaru a hyrwyddo'r map o'r ddarpariaeth yng Nghymru.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Angen 'strategaethau ymadael' cryfach pan fydd therapi / cymorth darparwyr yn dod i ben. Ee Proses fwy ffurfiol i gyfeirio cyn-filwyr at y cymorth sydd ar gael pan fydd therapi GIG Cymru i Gyn-filwyr a therapi alcohol yn dod i ben. Defnyddio grwpiau cymorth a chanolfannau. |
| | Cyfamod ddim yn cael ei weithredu / ei gynnal / ddim yn gwneud beth y dylai | **Dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gael eitem sefydlog ar y Lluoedd Arfog** / adroddiad blynyddol gan Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog ar y gwaith o gyflawni'r Cyfamod yn yr ardal. Cysylltiadau â dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Iechyd – Dylai **gofyn y cwestiwn** fod yn orfodol / dylid cofnodi canlyniadau. |
| | Diffyg cymorth yn cael ei ddarparu mewn bywyd sifil / trafferth dod o hyd i wybodaeth | Trafferth cael gafael ar ddarpariaeth iechyd meddwl arbenigol yn y system cyfiawnder troseddol ee **dylai GIG Cymru i Gyn-filwyr ddarparu asesiadau cyn rhyddhau**.<br><br>GIG Cymru i Gyn-filwyr – cyllid ychwanegol er mwyn gallu ymestyn y gwasanaeth i boen cronig, cymorth i deuluoedd.<br><br>Dylid cynhyrchu **canllaw cyllid i'r sector yng Nghymru** ynghylch pa gyllid sydd ar gael i gefnogi'r Lluoedd Arfog – yn debyg i'r canllaw cyllid ar blant y Lluoedd Arfog a gynhyrchwyd gan SSCE Cymru.<br><br>**Angen mwy o gapasiti ar dimau argyfwng**. |
| | Diffyg cymorth i deuluoedd | Prosiect Barnardo's sy'n rhoi cymorth i blant. Bwlch o hyd gan nad oes unrhyw beth wedi cymryd lle'r prosiect. Angen **gwasanaeth sy'n rhoi cymorth i blant**. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Plant y Lluoedd Arfog – angen ymrwymiad a **dyddiad pan fydd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn casglu data ar blant y Lluoedd Arfog**. Rhaid cryfhau'r cod derbyniadau i gydnabod plant y Lluoedd Arfog yn well.<br><br>Plant y Lluoedd Arfog – **ariannu swyddogion rhanbarthol, tebyg i Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog**, i weithio gydag ysgolion. |
| **Caerdydd** | Profiad pontio / adsefydlu gwael | **Angen sioeau teithiol y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd yng Nghymru**<br><br>**Angen gweithdai'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd yng Nghymru**<br><br>**Gwasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog – angen ymrwymiad ffurfiol i gynnal cymorthfeydd / sesiynau allgymorth yng Nghymru.** |
| | Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau | **Angen defnyddio modiwlau hyfforddi wedi'u hariannu gan y Cyfamod o Goleg Caerdydd a'r Fro ar draws pob sector**<br><br>**Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau i gyn-filwyr yn fwy hygyrch ac yn gysylltiedig â gwasanaethau cyffredinol, ee Awdioleg. Staff angen bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau penodol i gyn-filwyr sydd ar gael.** |
| | Cyflogaeth | Dysgu cyn-filwyr sut mae defnyddio'r iaith gywir wrth ysgrifennu CV a llenwi ceisiadau<br><br>**Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd** – hyrwyddo. |
| | Cyfamod ddim yn cael ei weithredu / ei gynnal | Cyflwyno'r cynllun achredu meddygon teulu ledled Cymru. Statws ystyriol o gyn-filwyr. Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Triniaeth flaenoriaethol – angen casglu gwybodaeth. Rhaid rheoli disgwyliadau drwy negeseuon gwell.**<br><br>**Gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar hyfforddiant i staff iechyd rheng flaen** – cysylltiad posibl â Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog.<br><br>**Veterans' Gateway** - hyfforddiant rheolaidd i'r rheini sy'n gweithio yn y ganolfan alwadau gan sefydliadau partner.<br><br>Cymru i lofnodi'r 'Addewid i Gyn-filwyr'.<br><br>Adran Materion Cyn-filwyr i Gymru – cyd-drefnu ar draws llywodraethau. |
| | Profiad negyddol o elusennau | **Elusennau newydd** yn cael gwybodaeth am ba mor bwysig yw cynaliadwyedd a'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt, ee atebolrwydd a pheryglon<br><br>Dylai **Gwaith Gwaddol** fod y peth arferol wrth redeg unrhyw brosiect – ee Hyfforddiant – Hyfforddiant gan Action on Hearing Loss i'r holl staff. Project 360 yn hyfforddi gwirfoddolwyr hŷn yn Age Cymru.<br><br>**Bwrdd y Cyfamod** yn cyhoeddi canllawiau cliriach ar strwythur y broses gwneud cais.<br><br>Rhaid edrych ar **gynaliadwyedd** cyllid – gwneud yn siŵr bod gan bartneriaethau lleol rôl i'w chwarae. Cryfhau'r cysylltiad rhwng panel grantiau bach a phanel grantiau mawr ar lefel y DU. |
| | Diffyg cymorth mewn bywyd sifil | Mae angen i gynllun cyflawni a'r strategaeth **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** grybwyll cyn-filwyr (mae'r Strategaeth yn gwneud hynny). |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cyllid ar gyfer GIG Cymru i Gyn-filwyr** i gymryd lle cyllid Help for Heroes.<br><br>Addysg o ran beth yw triniaeth flaenoriaethol. Rheoli disgwyliadau. Ailfrandio o bosibl?<br><br>**Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ferched** – erbyn hyn mae rhagor o ferched yn gadael y Lluoedd Arfog nag o'r blaen, a chanddynt wahanol anghenion a gofynion. |
| | Addysg | **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion** i nodi plant y Lluoedd Arfog. |
| | Data | **Niferoedd gwaelodlin o ran camddefnyddio sylweddau – ydy holl wasanaethau DACW yn 'gofyn y cwestiwn'? Os nad ydynt, fe ddylent.** Natur y broblem yn golygu bod nifer yr adroddiadau'n llai na nifer yr achosion go iawn.<br><br>**Tai – casglu gwybodaeth fel rhan o gais am dŷ yn elfen safonol ar draws awdurdodau lleol / cymdeithasau tai**. Rhestrau aros.<br><br>Plant y Lluoedd Arfog – casglu data drwy Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**.** Angen cynnydd ac amserlen. |
| | Diffyg cymorth i deuluoedd | **Tros Gynnal Plant yn gweithio gyda GIG Cymru i Gyn-filwyr mewn ardal gyfyngedig. Angen cyllid ychwanegol i'w gyflwyno ledled Cymru.**<br><br>**GIG Cymru i Gyn-filwyr i roi cymorth i deuluoedd.**<br><br>**Heb lenwi'r bwlch a adawyd gan brosiect Barnardo's. Angen gwasanaeth i blant.** |

| | | |
|---|---|---|
| **Llandudno** | Profiad pontio / adsefydlu gwael | **Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid** – creu dogfen 'deall y jargon' i helpu pobl i gael gwaith. Dogfen deall y jargon Gymraeg i'r rheini sy'n pontio, gyda chymorth ar ddatganoli a'r hyn sydd wedi cael ei ddatganoli.<br><br>Gofyn i ddinasyddion neu'r rheini sydd wedi pontio'n llwyddiannus o'r Lluoedd Arfog i gymryd golwg ar CVs a cheisiadau'r rheini sy'n gadael Gwasanaeth. |
| | Diffyg cymorth mewn bywyd sifil | **Triniaeth flaenoriaethol** – enw'n gamarweiniol. Efallai y byddai newid yr enw'n fuddiol ee llwybr blaenoriaeth.<br><br>**Credydau Dysgu Uwch** – angen gwneud rhagor o gyrsiau ar gael ac angen i'r cais fod yn symlach.<br>• Cais Rhyddid Gwybodaeth i weld ar beth mae'r gyllideb yn cael ei gwario, faint ohoni sy'n cael ei defnyddio.<br>• Cynrychiolydd addysg yn Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru. |
| | Cyfamod ddim yn cael ei weithredu | **Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog** i gael cyllid parhaus ar ôl 20/21.<br><br>**GIG Cymru** yn ariannu'r hyn sy'n cyfateb i Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog – dim ond 2% o staff y GIG sy'n ymwybodol o GIG Cymru i Gyn-filwyr.<br><br>**Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid** – gwneud yn siŵr bod cwmnïau â gwobrau aur ac arian yn dal yn bodloni'r meini prawf – gall ddirymu'r wobr os yw'n credu nad ydynt yn gymwys.<br><br>Angen i'r Cyfamod ddarparu cyllid craidd i brosiectau. |


| | | |
|---|---|---|
| | Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau | **GIG Cymru i Gyn-filwyr** i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i wasanaethau i gyn-filwyr ar wefannau byrddau iechyd lleol.<br>• Newid algorithmau i ddangos tudalen hyd yn oed os bydd rhywun yn chwilio am dermau gwahanol, ee cyn-filwr, gadael gwasanaeth, y fyddin ac ati. |
| | Profiad negyddol o elusennau | Darparu cyllid cynaliadwyedd i **Veterans' Gateway**. Budd mwy o elusennau'n buddsoddi adnoddau yma ee bydd canolfannau galwadau unigol yn dod i ben ar gyfer canolfan alwadau Veterans' Gateway os ydynt yn gwybod y bydd yn bodoli am gyfnod hir. |
| | Cymorth i deuluoedd | **SSCE Cymru –** creu dogfen wybodaeth gryno i bob ysgol.<br><br>Project 360 – cwnsela profedigaeth yng Nghymru i gyn-filwyr dros 65 oed. |
| | Y Weinyddiaeth Amddiffyn | **Ap Transition** – drwy Wasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog?<br><br>Cyfnod 3 mis gorfodol cyn gadael Gwasanaeth lle nad oes modd ymfyddino ac mae'n rhaid ymgysylltu â'r broses pontio.<br><br>Gwneud **cyngor ariannol** yn rhan o hyfforddiant sylfaenol. |
| **Caerffili** | Polisïau anghyson / angen blaenoriaethol / cymorth sydd ei angen ar ôl pontio (flynyddoedd yn ddiweddarach weithiau) | **Deddfwriaeth / canllawiau cyson** gan Lywodraeth Cymru ynghylch dyraniadau tai. Loteri cod post ee awdurdodau lleol Gwent wedi diwygio polisïau lleol.<br><br>**Gwneud yn siŵr bod gŵyr a gwragedd sydd wedi ysgaru / wedi gwahanu yn cael eu hamddiffyn**, ee cysylltiad lleol ac anfanteision blaenorol yn cael eu cydnabod wrth ddyrannu tai. |
| | Cyllid | **Dyrannu cyfran o gyllid y Cyfamod i adrannau / llywodraeth ddatganoledig er** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol.** |
| | Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau | **Dylid prif ffrydio gwasanaethau mewn cyrff statudol ee Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog.**<br><br>**Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog – angen dangosyddion perfformiad allweddol, targedau a nodau cyson** wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaeth ranbarthol y Lluoedd Arfog. |
| | Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan wasanaethau | **Cyflogwyr – angen gwybodaeth friffio gyson i gyflogwyr ynghylch cryfderau a sgiliau cyn-filwyr.** Ar hyn o bryd mae amrywiad rhwng yr ymgysylltiad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ag elusennau, â llywodraethau ac â Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog.<br><br>**Gwahodd / cynrychioli cyflogwyr yn rheolaidd yn fforymau rhanbarthol y Cyfamod.**<br><br>**Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn a chyflogwyr lleol – cysylltiad â'r broses pontio ee lleoliadau gwaith, profiad gwaith i'r rheini sy'n gadael Gwasanaeth yn eu hardal leol.** |
| | Profiad pontio / adsefydlu gwael | Angen **canolfan adsefydlu yng Nghymru** / dangos pam mae angen un.<br><br>**Rhaid newid contract y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd i adlewyrchu'r ddarpariaeth yng Nghymru, a'r cymorth lleol drwy weithio gyda phartneriaid lleol.**<br><br>Gwneud mwy o sesiynau briffio yn **orfodol** i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog.<br><br>**Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth benodol i Gymru'n cael ei darparu i'r** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog drwy 160, Tidworth, y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd ac ati**, ee Croeso i Gymru. |
| | Diffyg cymorth mewn bywyd sifil | **Defnyddio ffeiriau swyddi sy'n bodoli'n barod (nid rhai sy'n benodol i'r Lluoedd Arfog) mewn ardaloedd lleol i hysbysebu i'r rheini sy'n pontio / cyn-filwyr drwy'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd, RFEA ac ati.**<br><br>**Gofyn y cwestiwn** ee dalfeydd.<br><br>Gadael y system cyfiawnder troseddol – 'dwy broses pontio': o'r Lluoedd Arfog ac o'r carchar. Rhaid cydnabod hyn.<br><br>**Archwilio hyfforddiant 'Camau Cynnar gyda'n Gilydd' drwy'r Swyddfa Gartref. Cysylltu ag ymwybyddiaeth o gyn-filwyr i heddluoedd.**<br><br>**Angen diweddaru pecyn hyfforddi CLlLC.** Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ddim yn ei ddefnyddio'n gyson, cael ei ystyried yn rhy hir.<br><br>**Angen i'r cymorth i gyn-filwyr hŷn adlewyrchu anghenion penodol.** |
| | Cyfamod ddim yn cael ei weithredu | **Plant y Lluoedd Arfog – ymestyn 'statws eithrio' i'r rheini sy'n pontio / yn symud yn ôl i Gymru.** |


Canlyniadau'r Ymarfer Cwmpasu – rhoi sgôr i'r profiad o'r gwasanaethau

## Atodiad 3- Rhowch sgôr i'ch profiad chi o'r canlynol




| | Gofal Iechyd | Tai | Addysg | Budd-daliadau a'r System Les | Cyflogaeth | Pontio i Fywyd Sifil |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwael neu Wael Iawn | 34.20% | 31.90% | 23.30% | 49.70% | 38.60% | 57.10% |
| Ddim yn Dda nac yn Wael | 24.90% | 24.10% | 28.20% | 17.40% | 21.80% | 21.50% |
| Da neu Dda Iawn | 39.70% | 19.90% | 29.60% | 9.30% | 27.50% | 16.10% |
| Amh. | 1.10% | 24.10% | 19% | 23.60% | 12.10% | 5.10% |

# Atodiad 4- Pa feysydd sydd angen eu gwella




| | Gofal Iechyd | Tai | Addysg | Budd-daliadau a'r System les | System Cyfiawnder Troseddol | Cyflogaeth | Pontio i Fywyd Sifil (mentora gan gyfoedion / grwpiau cymorth i sefydliadau) | Does dim angen gwella unrhyw feysydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyn-filwyr | 72.30% | 63.10% | 37.10% | 64.80% | 19.70% | 64.80% | 75.10% | 2.50% |
| Sefydliadau | 59.10% | 69.70% | 39.40% | 43.90% | 34.90% | 59.10% | 43.90% | 0 |